

DOLEN Y TAB – 21

11–12 Medi 2020

OEDFA DYDD SUL 13 MEDI

Y Parchg. Aled Edwards fydd yn arwain y Myfyrdod yn ein hoedfa fore Sul, a cheir cyfraniadau gan Sara a Geraint Wyn Davies, Gaynor Evans, Eleri Huws a Nia Williams. Yn ôl yr arfer erbyn hyn, bydd y fideo'n ymddangos ar ein llwyfannau digidol yn blygeiniol fore Sul.

OEDFAON GWEDDILL MIS MEDI

20 Medi

Oedfa Deuluol

27 Medi

Y Parchg. Gethin Rhys

****OEDFAON AR-LEIN****

Os oes unrhyw un yn barod i gymryd gofal am **olygu oedfa** byddai'n wych i glywed oddi wrthyfch – cysylltwch gydag

Emlyn (emlyn.pentyrch@btinternet.com / 02920 891344), neu

Geraint (geraintrees@hotmail.com / 07816 341527)

Hefyd, os oes yna deulu neu unigolion fyddai'n hoffi **cyfrannu at oedfa ar-lein** byddai Emlyn a Geraint yn falch o glywed gennyfch.

Cofiwch hefyd bob dydd Sul am . . .

- **12.00** Oedfa Radio Cymru
- **12.30** Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
- **E-fwletin** *Cristnogaeth21* ar eu gwefan www.cristnogaeth21.cymru

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn bob cydymdeimlad â Dr Jenny Thomas a Huw Roberts, Creigiau, a'r plant ar golli mam Jenny'n ddiweddar.

AR Y GWEILL

Fel y gwyddoch, mae cyfyngiadau Covid-19 wedi'n gorfodi ni i newid ein dulliau gweithredu. Er hynny, mae eich cydweithrediad chi, a'ch haelioni, wedi sicrhau ein bod fel eglwys yn dal i fedru gwneud rhywfaint o wahaniaeth i fywydau pobl sy'n wynebu caledi ac anawsterau yn ein cymuned leol ac ar draws y byd.

Mae'r casgliadau dros y chwe mis diwethaf at Gronfa Llifogydd Rhondda Cynon Taf, Banc Bwyd Taf Elái ac apêl Wythnos Cymorth Cristnogol i helpu ffoaduriaid Rohingya ym Mangladesh a phobl ddirgaref mewn gwerysloedd yn Nigeria, yn dyst i'n hymlyniad at werthoedd Cristnogol.

Cawsom gyfle hefyd, drwy ebost at Lysgennad UDA yn Llundain, i fynegi ein gwrthwynebiad i ymdriniaeth yr Arlywydd Trump o achos llofruddiaeth George Floyd.

Bydd ein casgliad ariannol at y Banc Bwyd yn parhau nes y byddwn yn medru helpu'n ymarferol unwaith eto, gan y bydd y galwadau ar y banciau bwyd yn drwm iawn am beth amser i ddod. Fe rennir casgliad yr amlenni brown rhwng pedair elusen ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd manylion am yr elusennau hynny'n ymddangos yn y Ddolen yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae'r cyfyngiadau wedi rhwystro unrhyw ddarpariaeth ar gyfer bod yn eglwys Dementia-gyfeillgar, ond gobeithiwn ailafael yn y cynlluniau pan fydd hi'n ymarferol bosib. Yn yr un modd, ni fu datblygiad yn ein cydweithio gyda Croeso Pontypridd i groesawu ffoaduriaid o Syria i'r ardal, ond gobeithiwn y bydd hyn yn bosib rywbryd yn y dyfodol.

Yn anffodus, mae'r cyfyngiadau yn ein rhwystro rhag ailddechrau gweini te pawns Sul yn Nhabernacl yr Ais hefyd. Bydd yn braf cael ailafael yn y gwasanaeth pwysig yma pan fydd hi'n hollol ddiogel i wneud hynny.

Yn y cyfamser, efallai y dylen ni fanteisio ar bob cyfle i fynegi ein gwrthwynebiad i unrhyw bolisiau gan lywodraethau Cymru a San Steffan sy'n annheg â charfannau penodol yn ein cymunedau. Byddem yn falch o dderbyn eich awgrymiadau.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol
johnllewt@hotmail.com ac
ann.pentyrch@btinternet.com

GAIR O'R BWRDD

Am y tro cyntaf ers 11 Chwefror cafwyd cyfarfod 'byw' o'r Bwrdd, a hynny yn y capel nos Fawrth 8 Medi, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd i lanhau ein dwylo yn y cyntedd cyn cael ein tywys fesul un gan stiwardiaid mewn mygydau i'n seddau penodol oedd ar wasgar ar draws llawr y capel er mwyn sicrhau bod pellter cymdeithasol o 2 fetr rhyngom.

Wrth groesawu'r aelodau mynegodd Eluned, ein Cadeirydd, ei gwerthfawrogiad ar ran yr eglwys i'r unigolion a'r grwpiau hynny sydd wedi mor ddiwyd yn cadw fflam yr achos ynghynn dros y chwe mis diwethaf – cydlynwyr a chyfranwyr yr oedfaon rhithiol ardderchog, aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am drefnu ymgyrchoedd elusennol mor llwyddiannus, a chriw bore lau sydd wedi cyflawni cymaint o waith yn datblygu a thacluso'r safle dros y cyfnod clo.

Ailagor y Capel a'r Ganolfan

Y brif eitem ar agenda'r cyfarfod oedd dechrau cynllunio pryd a sut y byddem yn dychwelyd i gyd-addoli yn y capel ac i ganiatáu cynnal dosbarthiadau allanol a gweithgareddau eraill yn y Ganolfan. Manteisiwyd ar yr adroddiad cynhwysfawr a baratowyd gan Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd Bethlehem, Gwaelod y Garth, a fydd yn cynnal oedfaon o'r Sul hwn ymlaen fel sail cychwynnol i'n trafodaeth. Ond yn sgil datganiad y Prif Weinidog, Mark Drakeford, fore heddiw (dydd Gwener) a chyhoeddiad Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gynharach, efallai y daw angen i gyflwyno cyfyngiadau pellach ar symudiadau pobl o fewn y sir, felly bydd rhaid pwylllo am ychydig eto i gael darlun cliriach o'r ffordd ymlaen. Yn y cyfamser, bydd aelodau'r Bwrdd yn dechrau cynllunio ar gyfer ailagor pryd bynnag y bydd yn ddiogel i fwrw ymlaen. Hefyd, cytunwyd i holi barn yr aelodau am agor pan fyddwn o'r farn ei bod yn amser priodol i wneud hynny.

Rheolwr Safle

Yng nghanol yr holl ansicrwydd, braf oedd derbyn un pwt o newyddion da. Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn hysbysebu am Reolwr Safle i olynu loan ers rhai wythnosau bellach, ac er nad ydym wedi derbyn unrhyw

ymateb mor belled, mae Mike West wedi gwirfoddoli i lenwi'r bwch yn ddi-dâl am gyfnod o dri mis er mwyn rhoi rhagor o amser i wneud penodiad mwy parhaol. Eisoes mae Mike a Phwyllgor y Meddiannau wedi trefnu nifer o asesiadau allweddol, megis asesiad o'r risg tân, yr offer trydanol a'r systemau tân a larymau diogelwch. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn ymestyn y rhwyd drwy hysbysebu'r swydd yn ehangach yn y gobaith y gallwn benodi Rheolwr newydd erbyn dechrau Rhagfyr.

Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd Arwyn, ein Trysorydd, gyfrifon cymharol rhwng blwyddyn gron 2019 a saith mis cyntaf 2020. Dan yr amgylchiadau, doedd hi ddim yn gwbl annisgwyl clywed bod gostyngiad sylweddol yn y casgliadau rhydd a chyfraniadau'r amlenni brown (elusennau lleol), ynghyd â'r derbyniadau am logi'r Ganolfan. Ar y llaw arall, wrth gymharu gwariant yr eglwys yn ystod saith mis cyntaf 2020 a'r flwyddyn 2019, rhagwelir y bydd gostyngiad sylweddol iawn yn y taliadau cynnal a chadw (y fynwent a chyffredinol). Nododd Arwyn hefyd fod cyfraniadau'r aelodau i'r ymgyrchoedd elusennol (Cronfa'r Llifogydd, Banc Bwyd Taf Elái a Chymorth Cristnogol) wedi bod yn rhyfeddol o hael.

Ar nodyn mwy calonogol, roedd mwy o arian wrth gefn yn y banc nag ar ddechrau'r flwyddyn – a'r mis hwn byddwn yn cwblhau taliad olaf y benthyciad o £15,000 i Undeb yr Annibynwyr am welliannau i'r capel.

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk / 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.*

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.